# Arolygiad Troseddu 2014

## Heddlu De Cymru

Tachwedd 2014

© HMIC 2014

ISBN: 978-1-78246-717-5

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

# Cynnwys

**Cynnwys** .......... 2

**Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran cwtogi ar droseddau?** .......... 3

**Cyflwyniad** .......... 5

**Methodoleg** .......... 6

**Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran cwtogi ar droseddau ac atal troseddu?** .......... 7

**Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran ymchwilio i droseddu?** .......... 14

**Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol?** .......... 18

**Beth mae pob penderfyniad yn golygu** .......... 22

# Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran cwtogi ar droseddau?

## Crynodeb cyffredinol

Mae Heddlu De Cymru yn gosod dioddefwyr yn ganolbwynt i'w dull o weithredu, ac mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu dioddefwyr bregus. Mae arweinyddion yr heddlu yn gosod ac yn gyrru blaenoriaethau strategol clir i leihau troseddu ac atal aildroseddu. Caiff y mwyaf bregus eu hamddiffyn yn effeithiol. Mae boddhad dioddefwyr gyda gwasanaethau'r heddlu yn gwella. yn Ne Cymru. Mae'r heddlu yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i leihau troseddu ac atal aildroseddu.

Mae ymyrraeth gynnar a datrys problemau yn gryfderau ymhlith y llu. Mae dilyniant staffio o fewn timau heddlu cymdogaeth yn atgyfnerthu'r ymdriniaeth â lleihau troseddu ac atal aildroseddu ac yn golygu bod yr heddlu yn deall pryderon a blaenoriaethau cymunedau lleol.

Mae'r ymdriniaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn neilltuol o dda yn Ne Cymru. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r heddlu ac i'r comisiynydd. Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryf, yn strategol ac yn lleol fel ei gilydd. Mae gwaith yr heddlu ar ddatrys problemau yn y gymdogaeth yn gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol.

Eleni, archwiliodd HMIC gywirdeb data pob un o'r 43 heddlu, er mwyn penderfynu i ba raddau y gellir ymddiried, ar lefel genedlaethol, mewn gwybodaeth a gofnodir gan yr heddlu wrth gofnodi troseddau. Canfu HMIC bod ymdriniaeth Heddlu De Cymru o gofnodi troseddau yn dda, gyda gradd uchel o gywirdeb. Gellir darllen adroddiadau am yr heddluoedd unigol yma:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

| Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran cwtogi ar droseddau ac atal troseddu? | Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran ymchwilio i droseddu? | Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol? |
|---|---|---|
| **Da** | **Da** | **Neilltuol** |
| Cytunir ar flaenoriaethau clir rhwng y comisiynydd a Heddlu De Cymru i leihau ac atal troseddu.<br><br>Trosglwyddir y blaenoriaethau hyn yn effeithiol i weithgarwch gweithredol gan dimau heddlu cymdogaethol a gwasanaethau cefnogol arbenigol.<br><br>Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth drylwyr, gyfredol o'r gofynion mae'n eu hwynebu, ac maent yn cyfeirio eu hadnoddau i'r ardaloedd hynny sydd fwyaf eu hangen ac yn wynebu'r niwed mwyaf.<br><br>Mae diogelu pobl fregus, ymyrryd yn gynnar i dorri cylchoedd o droseddau a datrys problemau yn ganolog i ddull yr heddlu o weithredu. | Mae gan Heddlu De Cymru ddull effeithiol a chyson mewn lle i sicrhau bod gofal dioddefwyr a thystion o safon uchel.<br><br>Defnyddir cynlluniau archwilio yn effeithiol gan arolygwyr i gyfeirio ymholiadau troseddol ac amlhau'r tebygrwydd o ddwyn troseddwyr i gyfraith.<br><br>Mae'r heddlu yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i drin troseddwyr cyson a niweidiol a lleihau aildroseddu.<br><br>Nid yw addysgu cyfundrefnol wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Rhaid wrth agwedd fwy adeiledig er mwyn sicrhau diwylliant o welliant parhaol ar draws y llu. | Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth yn Ne Cymru. Cyflenwir gweithgarwch gweithredol gan dimau amlasiantaeth sydd yn adolygu, yn barhaus, y ffordd orau i gefnogi dioddefwyr ac atal ymddygiad sydd yn tramgwyddo.<br><br>Defnyddir dadansoddi a chudd-wybodaeth yn effeithiol i atal erlid dioddefwyr ac i nodi'r troseddwyr sydd yn peri'r niwed mwyaf.<br><br>Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder o fewn y llu, mewn perthynas ag adnabod dioddefwyr bregus a'r modd y mae'n tynnu ar gefnogaeth sefydliadau allanol i'w hamddiffyn.<br><br>Defnyddir technegau datrys problemau yn effeithiol gan dimau plismona yn y gymdogaeth i wella ansawdd bywyd i bobl De Cymru. |

# Cyflwyniad

Mae’r arolygiad hwn yn ystyried pa mor effeithiol yw heddluoedd o ran cwtogi ar droseddu. Mae’r cyhoedd yn disgwyl i’r heddlu leihau, atal ac ymchwilio i droseddau, dwyn y rhai dan amheuaeth i gyfraith ac, ar y cyd â gwasanaethau ac asiantaethau eraill, i ofalu am ddioddefwyr. Er mwyn asesu effeithlonrwydd pob llu, buom yn edrych ar dri maes penodol:

- Pa mor effeithiol yw’r llu o ran cwtogi ar droseddau ac atal troseddu?
- Pa mor effeithiol yw’r llu o ran ymchwilio i droseddu?
- Pa mor effeithiol yw’r llu o ran taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol?

## Methodoleg

Yn ystod ein harchwiliad buom yn dadansoddi data a dogfennau'r heddluoedd, ac yn cynnal archwiliadau o fewn yr heddluoedd. Buom yn cyfweld y swyddogion hŷn sy'n gyfrifol am droseddu, plismona yn y gymdogaeth a gofal dioddefwyr ym mhob llu. Cynhaliwyd grwpiau trafod gyda swyddogion heddlu rheng flaen, a gwylio eu gweithgarwch o lygad y ffynnon. At hyn, adolygwyd 20 ymchwiliad troseddol ym mhob llu a chyfweld penaethiaid sefydliadau partner megis awdurdodau lleol. Canolbwynt yr archwiliad oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau: byrgleriaeth o eiddo; troseddau rhyw difrifol; a thrais gyda niwed yn ystod yr archwiliad hwn. Ein rheswm dros ganolbwyntio ar y troseddau hyn oedd eu bod yn cwmpasu troseddau meddiangar a threisgar ac amddiffyniad pobl fregus. Rhoddodd hyn gyfle i ni asesu pa mor dda mae'r heddlu yn trin y dioddefwr trwy gydol yr ymchwiliad – gan ystyried yn benodol pa mor dda oedd y swyddogion yn hel gwybodaeth a pha mor dda roeddynt yn cael eu harolygu.

Mae dioddefwyr wrth galon yr arolygiad hwn. Mae hawl gan ddioddefwyr gael gwasanaeth gan yr heddlu; mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gyson am eu hachos, cyfle i gynnig datganiad effaith pan fo hynny yn berthnasol ac ymgynghori â hwy ar ganlyniadau cyfiawnder troseddol posibl. Pan fydd yr heddlu yn darparu'r gwasanaeth hwn i ddioddefwyr, mae'n cynyddu boddhad y dioddefwr ac yn adeiladu ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu.

Fel rhan o'r arolygiad hwn, buom yn ystyried pa mor dda mae heddluoedd yn ymdrin ag achosion o gam-drin domestig, ochr yn ochr â mathau eraill o drosedd. Cyhoeddodd HMIC adroddiad ym mis Mawrth 2014 ar ba mor dda mae heddluoedd yn ymdrin â cham-drin domestig a chynnig cefnogaeth i ddioddefwyr. O ganlyniad i'r arolygiad hwnnw gofynnwyd i bob heddlu ddarparu cynllun gweithredu yn dangos sut maent yn gwella gwasanaethau i ddioddefwyr achosion o gam-drin domestig ac rydym wedi adolygu'r cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd gan yr heddluoedd. Nid yw'r cynlluniau gweithredu hyn wedi effeithio ar y penderfyniadau a wnaed yn yr adroddiadau hyn.

Mae'r arolygiad troseddau yn darparu'r cyfle cyntaf i'r HMIC brofi a yw ymagwedd yr heddlu at wella'r dull a ddefnyddir i ymdrin â cham-drin domestig yn dechrau cael effaith ac mae hyn yn rhan o'n hasesiad cyflawn o'r heddlu.

# Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran cwtogi ar droseddau ac atal troseddu?

Edrychodd HMIC ar sut mae arweinwyr yr heddlu yn trefnu eu hadnoddau i leihau nifer y troseddau a gyflawnir, amlhau ansawdd y cyswllt gyda'r dioddefwr, a sicrhau bod yr heddlu yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cymunedol tra'n lliniaru bygythiadau cenedlaethol.

Buom yn edrych ar sut mae'r heddlu yn atal troseddu, sut mae'n defnyddio tactegau megis grymoedd atal ac archwilio i atal a datgelu trosedd a lleihau troseddu. Buom yn edrych hefyd ar sut mae'r heddlu yn gweithio gydag asiantaethau eraill megis gwasanaethau cymdeithasol i leihau troseddu.


## Trosedd

Yn 2010 gosododd yr Ysgrifennydd Cartref flaenoriaeth glir i wasanaeth yr heddlu leihau troseddau. O'i gymharu â'r 12 mis hyd Fehefin 2010, roedd y troseddau a gofnodwyd (gan eithrio twyll) yn y 12 mis hyd Fehefin 2014 wedi lleihau fesul 14 y cant yn Ne Cymru o'i gymharu â lleihad o 16 y cant ar draws holl heddluoedd Cymru a Lloegr.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd troseddau a seiliwyd ar ddioddefwyr (h.y. troseddau lle ceir dioddefwr uniongyrchol megis unigolyn, grŵp neu sefydliad) wedi lleihau fesul 13 y cant yn Ne Cymru, o'i gymharu â lleihad fesul 16 y cant ar draws Cymru a Lloegr.

O edrych ar y 12 mis cyn diwedd Mehefin 2014 roedd y troseddau a gofnodwyd (gan eithrio twyll) yn Ne Cymru wedi cynyddu fesul 2 y cant. Mae hyn i'w gymharu â lleihad o 1 y cant ar draws Cymru a Lloegr.

**Ffigwr: Cyfradd trosedd a gofnodwyd (fesul 1,000 y boblogaeth) rhwng Mehefin 2010 a Mehefin 2014.**




Trwy edrych ar faint o droseddau cofnodedig a digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth, rydym yn cael arwydd o ba mor ddiogel ydyw i'r cyhoedd yn yr ardal heddlu honno. Mae'r tabl isod yn dangos cyfraddau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nyfed-Powys (ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth) o gymharu â gweddill Cymru a Lloegr.

| **Y 12 mis hyd at Fehefin 2014** | **Cyfradd Heddlu Dyfed-Powys (i bob 1,000 o'r boblogaeth)** | **Cyfradd Cymru a Lloegr (fesul 1,000 o'r boblogaeth)** |
|---|---|---|
| Trosedd ac eithrio twyll | 65.4 | 60.7 |
| Trosedd seiliedig ar ddioddefwyr | 57.2 | 53.9 |
| Troseddau rhywiol | 1.2 | 1.2 |
| Trais ag anaf | 7.3 | 5.9 |
| Byrgleriaeth mewn annedd* | 6.9 | 8.9 |
| Digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol* | 32.5 | 36.8 |

*** Sylwer bod data am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer y 12 mis hyd at Fawrth 2014 a bod y gyfradd ar gyfer byrgleriaeth mewn annedd fesul 1,000 cartref, nid y boblogaeth.**

Rydym wedi dewis y mathau hyn o drosedd i roi awgrym o lefelau trosedd yn ardal yr heddlu. Nid ydym yn barnu effeithiolrwydd yr heddlu ar gyfraddau troseddau a gofnodwyd yn unig. Am wybodaeth parthed amledd mathau eraill o drosedd yn eich ardal chi, ewch i [www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/crime-and-policing-comparator](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/crime-and-policing-comparator)

Roedd cyfradd darganfod De Cymru (ar gyfer troseddau ac eithrio twyll ) yn y 12 mis hyd at ddiwedd mis Mawrth 2014 yn 33 y cant oedd yn uwch na'r ffigwr o 26 y cant ar gyfer Cymru a Lloegr.

Cyflwynwyd fframwaith newydd canlyniadau troseddau yn Ebrill 2014. Mae'n disodli'r fframwaith blaenorol ar gyfer cofnodi sut mae'r heddlu yn cwblhau archwiliad trwy'r hyn a elwid yn 'sancsiynau datgeliad' (e.e. cyhuddiadau a /neu wysion). Cynlluniwyd fframwaith newydd canlyniadau troseddau i gefnogi swyddogion yr heddlu i ddefnyddio eu barn broffesiynol i sicrhau canlyniad teg ac amserol a fydd yn adlewyrchu'r niwed a wnaed i'r dioddefwr, difrifoldeb yr ymddygiad tramgwyddus, yr effaith ar y gymuned, ac sydd yn rhwystro troseddu yn y dyfodol. Bydd data ar ystod gyflawn y canlyniadau a gaed o ganlyniad i archwiliadau (nid datgeliadau yn unig ond hefyd, er enghraifft, datrysiadau cymunedol megis cyfryngiad a elwir yn gyfiawnder adferol) ar gael o fis Gorffennaf 2015 ac fe'u defnyddir yn arolygiadau HMIC yn y dyfodol.

## Cwrdd ag anghenion y gymuned

Gosodir cryn bwyslais gan Heddlu De Cymru ar leihau troseddu. Mae'r heddlu a'r comisiynydd yn rhannu cynllun strategol i yrru gweithgaredd gweithredol. Elfen allweddol yn eu hagwedd yw cael 'llinell glir' o gynllunio strategol, i osod blaenoriaethau, dyrannu adnoddau a darparu gwasanaeth gweithredol. Mae cynllun darpariaeth yr heddlu yn cynnwys ardaloedd blaenoriaeth sydd wedi eu gosod yn dilyn ymgynghoriad gyda chymunedau a'r gweithlu.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o raddfa a natur y galwadau ar blismona yn Ne Cymru. Mae wedi adolygu galwadau a chynllunio adnoddau yn rheolaidd er nifer o flynyddoedd. Mae wedi ystyried yn fanwl prif feysydd y galwadau, wedi lleihau ymdrechion gwastraff a dyrannu adnoddau i sicrhau ei fod yn medru ymateb yn fwyaf effeithiol i alwadau. Mae dealltwriaeth yr heddlu o alwadau wedi gwella ac mae adolygiadau, megis yr un a gynhaliwyd ar ymdriniaeth yr heddlu o alwadau unigol a gweithredu'r ystafell reoli (a elwir 'canolfan gwasanaeth cyhoeddus'), wedi gwella effeithiolrwydd ymateb a lleihau'r anghenion am adnoddau. Mae'r llu yn dadansoddi niferoedd y troseddau, data galwadau, galwadau sydd yn ymwneud ag economi gyda'r nos, a llif carcharorion ac wedi trefnu adnoddau i gwrdd â'r galwadau hynny. Bydd y modelau ar gyfer ymateb, cymdogaethau a CID adrannol i gael eu hadolygu eto er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas.

Mae'r heddlu yn wynebu rhai heriau pwysig. Er bod ardal yr heddlu yn gwasanaethu ond 10 y cant o dirfas Cymru, mae'n darparu gwasanaethau heddlu i 42 y cant o'r boblogaeth – tua 1.3 miliwn o bobl. Mae'n ardal amrywiol, yn cyfuno ardaloedd trefol a gwledig, yn gwasanaethu saith bwrdeistref sirol sydd yn cynnwys 63 o'r 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'n gartref hefyd i ddwy o ddinasoedd mwyaf Cymru, Abertawe a Chaerdydd. Mae graddfa a chymhlethdod y

digwyddiadau a gaiff sylw fel mater o drefn gan yr heddlu, a'r heriau ychwanegol sydd ynghlwm â phlismona prifddinas, yn ei gwneud yn unigryw o fewn Cymru.

Caiff plismona lleol ei ddarparu trwy bedair uned rheolaeth sylfaenol (BCUs) pob un yn gweithredu o fewn chwarter ardal yr heddlu, 19 uned plismona lleol, a'r ganolfan gwasanaeth cyhoeddus sydd yn darparu ar gyfer yr ardal i gyd. Mae gan bob uned blismona lleol ei hadnoddau ymateb a chymdogaeth ei hun, dan arweiniad arolygydd plismona lleol.

## Ansawdd cyswllt â dioddefwyr

Mae'r dioddefwr wrth galon dull yr heddlu o weithio. Mae gan yr heddlu amcan penodol ar gyfer cyswllt â'r dioddefwr: 'gwneud i bob cyswllt gyfrif'. Yr amcan yw sicrhau bod pob cyswllt a wneir gan unrhyw aelod o'r cyhoedd gydag unrhyw aelod o Heddlu De Cymru yn cwrdd â'u hanghenion, a'u gadael yn teimlo'n fodlon â'u profiad o'r heddlu.

Mae strategaeth ACCCC yr heddlu yn canolbwyntio staff rheng flaen ar ddarparu prif elfennau'r gwasanaeth sydd o bwys i'r dioddefwr:

**A**mser, cyrraedd ar yr amser a gytunwyd.

**C**yfeirnod, rhoi rhif trosedd a'ch manylion.

**C**ynghori'r dioddefwr am bopeth rydych wedi ei wneud.

**C**wblhau, unwaith mae'r ymholiadau wedi eu gorffen, dywedwch wrth y dioddefwr.

**C**adw'r dioddefwr wrth galon popeth yr ydym yn ei wneud.

Mae Heddlu De Cymru yn profi'r lefelau uchaf erioed o foddhad y dioddefwr ac ymhlith deg

uchaf yr heddluoedd yn genedlaethol. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â hanes eu perfformiad yn ddiweddar, ble gosodwyd yr heddlu yn y pedwerydd safle. Barn yr heddlu yw bod methodoleg ACCCC, 'galw yn ôl' ar gyfer dioddefwyr a'r gwersi a ddysgwyd o arolygon dioddefwyr wedi bod yn ffactorau hanfodol yn y llwyddiant hwn.

Mesur pwysig o effaith y newidiadau i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yw pa mor fodlon yw'r dioddefwyr gyda'r gwasanaeth cyffredinol maent yn cael wrth geisio cymorth gan yr heddlu. Yn y 12 mis hyd at ddiwedd Mehefin 2014, roedd gan Heddlu De Cymru raddfa boddhad o 89.1 y cant (± 0.9 y cant) sydd yn uwch na'r raddfa foddhad yn Cymru a Lloegr o 85.0 y cant (± 0.2 y cant ). Mae'r raddfa gyfredol yn uwch na'r 87.7 y cant (± 0.9 y cant) a gofnodwyd ar gyfer De Cymru yn y flwyddyn flaenorol.

## Defnydd o dactegau gan yr heddlu

Mae'r heddlu yn gwneud defnydd effeithiol o'u hadnoddau cudd-wybodaeth a dadansoddi ar gyfer ymyrryd yn gynnar a datrys problemau. Mae dadansoddwyr yn canolbwyntio ar faterion penodol y pedair uned BCU, pob un â'u hanghenion gwahanol. Maent yn darparu cynnyrch dadansoddol lleol i gefnogi proffil galwadau sydd yn golygu y gall rheolwyr gyfeirio adnoddau i'r mannau sydd fwyaf eu hangen.

Cynhyrchir cyfarwyddiadau dyddiol sydd yn cynnwys cynigion i batrolio 'poeth fannau' troseddau, tueddiadau troseddu tymhorol ac uchafbwyntiau eraill ym myd troseddu. Caiff cyfarwyddiadau eu dylanwadu hefyd gan ymchwilwyr sydd yn dadansoddi data arolygon ac yn adnabod blaenoriaethau eraill sydd yn effeithio ar gymunedau.

Mae gan yr heddlu sawl menter mewn lle i leihau troseddu yn economi gyda'r nos er enghraifft; Caerdydd yn yr Hwyr, bugeiliaid y stryd yn cynnig cefnogaeth i'r bregus, marsialiaid tacsi ac 'ysbyty maes' ar gyfer damweiniau ac argyfyngau stryd pob penwythnos yng Nghaerdydd ac Abertawe. Amcan hyn yw lleihau'r galwadau ar yr heddlu a'r GIG. Defnyddir atal ac archwilio fel tacteg i atal troseddu yn ac o gwmpas mannau adloniant, ac mae archwiliadau'r heddlu yn dangos bod 50 y cant o'r archwilio ar gyfer cyffuriau, a bod y grymoedd yn cael eu defnyddio'n deg ac yn bwyllog i atal troseddu.

Mae'r heddlu yn gweithio mewn partneriaeth â Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu (UPSI) a Phrifysgol Caerdydd. Mae hyn yn darparu cyswllt pwysig rhwng academyddion a'r heddlu, ac yn ychwanegu llymder at y dadansoddiad o dactegau a ddefnyddir i fynd i'r afael â phroblemau troseddau a'u heffaith.

Mae'r heddlu yn effeithiol o ran taclo grwpiau troseddwyr cyfundrefnol (OCGs). Maent wedi ymrwymo'n llwyr i adnabod, i dargedu a chwalu grwpiau troseddwyr cyfundrefnol (OCG) a chael gwared ar eu holl asedau. Defnyddir ymagwedd 'gweithredu ar sail system gyfan' sydd yn cynnwys casglu cudd-wybodaeth ar lefel cymdogaeth, proses o fapio troseddau OCG, penodi tasgau i darfu ar eu gweithgareddau a chysylltiadau gyda thasgluoedd rhanbarthol a'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA).

## Gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth

Mae'r heddlu yn dwyn cryfder o'u trefniadau partneriaeth hanesyddol yn Ne Cymru. Mae'n chwilio yn gyson am ffyrdd i ddatblygu ac adnewyddu'r gweithredu ar y cyd hwn i gyfyngiant trosedd ac anrhefn. Adeg yr archwiliad, roedd trafodaethau yn digwydd i ddatblygu trefniadau partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, a chymerwyd camau cadarnhaol i godi proffil gwarchod cymdogaeth.

Mae gwaith MAPPA (trefniadau amlasiantaeth i warchod y cyhoedd) a'r MARACs (cynadleddau amlasiantaeth i asesu risg) yn bartneriaethau aeddfed, effeithiol, ac mae Heddlu De Cymru yn chwarae rôl weithgar ynddynt. Enghraifft o arfer da yw eu hymdriniaeth o droseddwyr rhyw, a chaiff ei gryfhau trwy leoli ynghyd swyddogion heddlu a swyddogion prawf i fonitro unigolion sydd ar y gofrestr troseddwyr rhyw.

At hyn, mae trefniadau cydweithredu cadarn gydag asiantaethau eraill sy'n gweithredu'r gyfraith. Daeth digwyddiadau diweddar, lle'r oedd masnachwyr ffug yn manteisio ar yr henoed trwy dderbyn arian am waith adeiladu heb ei gwblhau neu anhylaw, i ben pan lwyddodd gwyddonwyr fforensig o'r heddlu i weld cyswllt mewn olion bysedd ar daflenni a wthiwyd trwy ddrysau. Canfuwyd aelod o'r OCG a'i erlyn yn llwyddiannus.

## Cam-drin domestig

Ym mis Mawrth 2014 cyhoeddodd HMIC ganlyniad eu harchwiliad o'r 43 heddlu ar effeithlonrwydd ymagwedd yr heddlu at drais domestig, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddioddefwyr ac a yw'r risg i ddioddefwyr yn cael eu rheoli yn ddigonol. Roedd hyn yn cynnwys argymhellion clir ar gyfer pob heddlu ynglŷn â'r gwelliannau yr oedd eu hangen. O ganlyniad i'r archwiliad hwn roedd gofyn i bob heddlu gynhyrchu a chyhoeddi cynllun gweithredu yn dangos y camau roeddynt yn eu dilyn i wella'r gwasanaethau i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Dylai'r cynllun hwn ddangos bod argymhellion HMIC yn cael eu dilyn ac egluro hefyd sut:

- bydd yr arweinwyr yn sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen a dwyn y bobl iawn i gyfrif;
- bydd ymateb yr heddlu pan fydd dioddefwr yn cysylltu â hwy am y tro cyntaf (trwy alwad 999 neu ymweld â gorsaf yr heddlu) a phan fyddant yn ymweld â safle'r digwyddiad yn gwella
- bydd yr heddlu yn sicrhau archwiliad o ansawdd uchel i bob trosedd cam-drin domestig;
- bydd dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n iawn a throseddwyr yn cael eu rheoli yn gywir; a
- bod yr hyfforddiant a'r addysg a ddarperir ar gyfer swyddogion yn sicrhau eu bod yn rhoi'r ymateb gorau sydd ar gael i'r dioddefwr.

Mae HMIC wedi gwneud ystyriaeth gychwynnol o'r cynllun gweithredu a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru. Canfuwyd ei fod yn fanwl, ac yn dangos gweithredu sydd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer heddluoedd fel yr amlinellir uchod. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfeiriadau at argymhellion yr HMIC yn genedlaethol ac yn benodol i un heddlu fel ei gilydd.

Roedd yr archwiliad troseddau wedi darparu ein cyfle cyntaf i brofi a yw'r newidiadau yn ymagwedd yr heddlu at gam-drin domestig yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

Canfu HMIC dystiolaeth bod cam-drin domestig yn flaenoriaeth i Heddlu De Cymru. Roedd partneriaid wedi adrodd am wasanaeth o safon uchel i ddioddefwyr gyda defnydd da o'r mesurau arbennig sydd ar gael i ychwanegu at ansawdd tystiolaeth tyst, er enghraifft, darparu tystiolaeth trwy gyswllt fideo neu o'r tu ôl i sgrin mewn llys barn. Roedd tystiolaeth o adwaith cychwynnol da i ddigwyddiadau, gyda gweithredu cadarnhaol yn digwydd, ac asesiad clir o'r risgiau i ddioddefwyr. Gyrrwyd archwiliadau dilynol yn eu blaenau gan swyddogion arbenigol sydd, yn ddiweddar, wedi cael hyfforddiant undydd ar eu hymateb i gam-drin domestig ac mae'n amlwg bod yna ymagwedd sydd wedi ei ganoli ar y dioddefwr o ran mynd i'r afael â'r broblem hon.

## Crynodeb

**Da**

- Cytunwyd ar flaenoriaethau clir rhwng y comisiynydd a Heddlu De Cymru i leihau troseddu ac atal troseddau.
- Trosglwyddir y blaenoriaethau hyn yn effeithiol i weithredu gweithredol gan dimau plismona cymdogaethol a gwasanaethau cefnogaeth arbenigol.
- Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth drylwyr, gyfredol o'r galwadau y mae'n eu hwynebu, ac mae'n cyfeirio ei adnoddau i'r ardaloedd mwyaf anghenus ac sy'n wynebu'r niwed mwyaf.
- Mae diogelu pobl fregus, ymyrryd yn gynnar i dorri cylchoedd o droseddu a datrys problemau yn ganolog i ffordd yr heddlu o weithio.

## Pa mor effeithiol yw’r heddlu o ran ymchwilio i droseddu?

Edrychodd HMIC ar yr ystod o dactegau a grymoedd a ddefnyddir gan yr heddlu i ymchwilio i droseddu, gan gynnwys sut y cynhelir ymchwiliadau, a yw troseddwyr mynych yn cael eu dargyfeirio o droseddu, a sut mae pobl sydd yn dioddef o aildroseddu yn cael eu cefnogi. Buom yn edrych ar sut mae’r heddlu yn dysgu o brofiad er mwyn gwella proffesiynoldeb mewn gweithred ac arweiniad.

Bregusrwydd, risg a dioddefwyr

Mae ymagwedd ganolog yr heddlu at y dioddefwr yn sicrhau asesiad cywir o fregusrwydd a risg i ddioddefwyr. I ddioddefwyr troseddau a gweithgarwch sydd ynghlwm â throsedd, mae staff yn y ganolfan gwasanaeth cyhoeddus yn medru adnabod bregusrwydd trwy ddefnyddio egwyddorion bygythiad, risg, bregusrwydd a niwed. Trwy’r broses hon, gall y person sydd yn derbyn yr alwad benderfynu’r ymateb addas gan yr heddlu. Mae’r ffactorau a ystyrir gan y rhai sy’n derbyn yr alwad yn cynnwys: unrhyw wybodaeth sydd yn awgrymu person bregus, unrhyw anabledd corfforol neu feddyliol, amgylchiadau ymddygiad neu ieithyddol, ac unrhyw awgrym eu bod yn ddioddefwr camdriniaeth ddomestig neu drosedd casineb.

Ar hyn o bryd mae gan yr heddlu un ganolfan asiantaeth amddiffyn cyhoeddus sydd yn gyfrifol am ddiogelu dioddefwyr. Mae gan staff yn y ganolfan hon ddealltwriaeth dda o’r broses ar gyfer cyfeirio dioddefwyr. Yn ogystal â hyn mae’r ganolfan yn cynnig cyngor ac arweiniad ar faterion risg-uchel megis cam-drin domestig. Mae’r heddlu yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu canolfan ddiogelu amlasiantaeth (MASH). Bydd hyn yn arwain at yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg yn cael eu cydleoli fel un uned gyfeirio, gan sicrhau cyfnewid cudd-wybodaeth yn gyflym a rheolaeth amlasiantaeth effeithiol.

Yn gyffredinol mae swyddogion yn cyfeirio at strategaeth ACCCC yn hytrach na chyfeirio at y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Trosedd gan fod yr heddlu yn teimlo bod yr ymagwedd ACCCC yn ymgorffori ac yn adeiladu ar y Cod. Mae dros 2,000 o swyddogion wedi cwblhau pecyn hyfforddiant ar-lein sydd yn dangos eu cyfrifoldebau a’u rhwymedigaethau yn y Cod.

Mae’r heddlu yn defnyddio ‘mesurau arbennig’ ar gyfer dioddefwyr yn effeithiol, ac yn arbennig mewn perthynas ag ymosodiadau rhywiol. Mae’r mesurau hyn yn rhan o ofynion y Cod ac yn caniatáu, er enghraifft, i rai dioddefwyr gyflwyno tystiolaeth trwy gyswllt fideo yn hytrach na gorfod mynd i ystafell y llys. Gwneir defnydd da hefyd o ddatganiadau personol dioddefwyr yn yr heddlu. Defnyddir y rhain i egluro ystyriaethau megis y trawma a ddioddefwyd neu’r effeithiau seicolegol a brofwyd o ganlyniad i’r driniaeth annheg.

## Ymchwilio

Y cyswllt cyntaf wrth archwilio trosedd yw'r heddlu, a digwydd hyn yn gyffredinol trwy gyswllt ffôn gyda'r ganolfan gwasanaethau cyhoeddus. Caiff unrhyw ffactorau risg eu hasesu trwy'r broses asesu risg ACCCC; caiff hyn ei ail archwilio pan fydd swyddogion yn ymweld â lleoliad trosedd ac ar adegau tyngedfennol yn ystod archwiliad.

Mae'r heddlu yn defnyddio ystod eang o dactegau archwiliadol. Mae'r rhain yn cynnwys: ymholiadau o dŷ i dŷ, datganiadau i'r wasg, holi cyfryngau cymdeithasol, ymchwilio fforensig, adnabod plât rhifau yn awtomatig, gwylio TCC, yn ogystal ag adfer data o ffonau symudol i gysylltu'r rhai dan amheuaeth â throseddau penodol. Bu'r defnydd o becynnau tystiolaeth cynnar i gael hyd i dystiolaeth fforensig yn ddatblygiad gwirioneddol. Bellach mae swyddogion rheng flaen yn fwy cyfarwydd o lawer gyda dulliau i ddefnyddio cyfleoedd fforensig, ac mae'r heddlu wedi cynyddu eu gallu i gasglu data yn ddigidol o gyfrifiaduron i atgyfnerthu ymchwiliad. Erbyn hyn mae gan bob swyddog ddyfeisiau symudol a fedr dynnu delweddau digidol ar safle trosedd a'u huwchlwytho i system reoli cofnodion yr heddlu.

Gwneir defnydd da o gynlluniau archwiliad, sydd wedi eu cytuno rhwng arolygwyr ac ymchwilwyr. Fe'u defnyddir i adnabod gwybodaeth a all gyfeirio'r ymchwiliad, monitro datblygiadau a datblygu cyfleoedd i adnabod troseddwyr a dwyn yr ymchwiliad i'r canlyniad gorau posibl.

Caiff dosraniad troseddau i'w harchwilio ei reoli yn broffesiynol. Rhoddir troseddau difrifol a throseddau lle mae'r dioddefwyr yn fregus, wedi eu bygwth neu yn cael eu targedu yn fynych, i dimau CID. Bydd timau ymchwilio a gafodd hyfforddiant arbennig yn gyfrifol am honiadau o droseddau rhywiol, cam-drin domestig a throseddau casineb. Yn ogystal â hyn, mae timau ymchwilio wedi eu lleoli yng nghanolfannau gwarchodol newydd yr heddlu yng Nghaerdydd, Abertawe, Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'r timau hyn yn gyfrifol am unigolion a arestiwyd am droseddau mwy syml. Maent wedi eu hyfforddi yn dda ac yn sicrhau safonau cyson, o ansawdd uchel o archwiliad a pharatoi ffeiliau erlyniad.

Defnyddir archwilwyr safle trosedd yn effeithiol i adnabod cyswllt rhwng cyfresi o droseddau. Yn ddiweddar, mae adfer fforensig wedi cysylltu 60 byrgleriaeth o dai i un unigolyn trwy adnabod y car a ddygwyd ac a ddefnyddiwyd ar bob achlysur. Adeg yr arolwg, roedd gwaith rhagweithiol dwys yn digwydd hefyd gan archwilwyr fforensig i olrhain y troseddwr fu'n lladrata yn fynych o siediau mewn lleoliad penodol.

Mae yn galonogol hefyd bod archwilwyr safle trosedd yn cael eu defnyddio i gefnogi ymchwiliad ble mae'r dioddefwyr yn fregus. Mae hyn yn torri ar y traddodiad ble roedd archwiliadau fforensig wedi eu cysylltu yn bennaf â mathau penodedig o drosedd, megis byrgleriaeth. Trwy adnabod troseddwyr, maent yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi dioddefwyr bregus.

## Taclo troseddwyr mynych a chyson

Yn ôl diffiniad yr heddlu[1], roedd gan Heddlu De Cymru 320 o droseddwyr mynych ar 31 Gorffennaf 2014, a 485 troseddwr dan raglen Rheoli Troseddwyr (IOM)[2].

Mae model IOM yr heddlu yn rhan o ymagwedd yng Nghymru sydd wedi anelu at reolaeth effeithiol o droseddwyr 'niwed uchel' a throseddwyr 'risg uchel'. Mae offer IOM Cymru yn dwyn partneriaid ynghyd o fewn Cymru i annog agwedd gydgysylltiedig at leihau aildroseddu. Canlyniad hyn yw llai o droseddu a llai o alwadau ar y system farnwrol gan droseddwyr mynych.

Mae rheolaeth gref o IOM ar lefel yr heddlu ac mae darparu'r gwasanaeth hwn yn digwydd ym mhob BCU trwy gydleoli timau o heddlu, cynrychiolwyr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), awdurdod lleol a swyddogion prawf.

Mae'r heddlu yn trafod gyda phartneriaid i ehangu cyfrifoldeb IOM i gynnwys troseddwyr ifancach, a'r rhai hynny sydd yn gyfrifol am drais yn erbyn merched, sydd yn dod i'r wyneb fel pwnc.

## Dysgu o brofiad

Mae pocedi o arfer da yn bodoli mewn perthynas â dysgu sefydliadol a datblygiad. Er enghraifft, cynhelir ôl-drafodaethau ac adolygiadau strwythuredig o ddigwyddiadau tyngedfennol yn gyson. Canfu HMIC dystiolaeth, hefyd, o ymrwymiad a brwdfrydedd ymhlith arweinwyr timau i ddysgu o brofiad a rhannu ymarfer da.

Fodd bynnag nid oes ystorfa o ymarfer gorau ar gael. Ymhellach, ymddengys nad oes unrhyw werthusiad ffurfiol o beth 'sydd yn gweithio' mewn unrhyw senario o ran dulliau i ddatrys problemau i fynd i'r afael â throseddau a gweithgarwch troseddol.

---

[1] Caiff Troseddwyr Cyson a Throseddwyr â Blaenoriaeth (PPOs) yn Ne Cymru eu dewis trwy ddefnyddio offer matrics. Rhaid i PPOs gyrraedd sgôr matrics o 200 i gael statws PPO neu os tybir bod risg uchel o aildroseddu.

[2] Caiff IOMs yn Ne Cymru eu dewis trwy ddefnyddio offer matrics sydd yn rhan o offer IOM Cymru. Rhaid i droseddwyr gyrraedd sgôr matrics o 100 i gael statws PPO neu os tybir bod risg uchel o aildroseddu.

## Argymhellion

O fewn chwech mis dylai Heddlu De Cymru sicrhau bod dulliau mewn lle:

- i adolygu a gwerthuso yn systematig buddion y tactegau a ddefnyddir ar hyn o bryd a mentrau newydd i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

  (a) i ddefnyddio dysgu ac ymarfer da yn systematig o ran atal troseddu a datrys problemau lleol; a

  (b) i rannu dysgu ac ymarfer da ar draws yr heddlu.

## Crynodeb

**Da**

- Mae gan Heddlu De Cymru ddull effeithiol a chyson mewn lle i sicrhau bod gofal dioddefwyr a thystion o safon uchel.
- Defnyddir cynlluniau archwiliad yn effeithiol gan arolygwyr i gyfeirio ymchwiliadau troseddol, a gwneud y gorau o'r tebygrwydd o ddwyn troseddwyr i gyfraith.
- Mae'r heddlu yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i reoli troseddwyr cyson a throseddwyr mynych a lleihau aildroseddu.
- Nid yw dysgu sefydliadol wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Mae angen ymagwedd fwy strwythuredig er mwyn sicrhau bod diwylliant o wella parhaus yn lledu ar draws yr heddlu.

# Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Edrychodd HMIC ar y ffordd mae'r heddlu yn atal ac yn taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn benodol ar y ffordd caiff dioddefwyr eu trin. Buom yn edrych ar ansawdd a chysondeb cyswllt gyda dioddefwyr ar draws yr heddluoedd ac a oedd dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu trin mewn modd sydd yn cymharu â dioddefwyr troseddau eraill.

## Cyswllt cymunedol a gofal dioddefwyr

Mae cyswllt gydag a gofal am ddioddefwyr mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gryf yn gyson. Adeg y cyswllt cyntaf gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol mae asesiad risg ACCCC yn dangos lefel posibl bregusrwydd y dioddefwr. Gosodir marc yn erbyn manylion a gofnodwyd am unrhyw ddioddefwr sydd eisoes wedi ei nodi fel dioddefwr, neu a ystyrir yn fregus. Gwneir cyswllt awtomatig â gwybodaeth am ddigwyddiadau blaenorol neu unrhyw archwiliad sydd eisoes yn cael ei gynnal. Canolbwynt y gweithdrefnau hyn yw adnabod arwyddion cynnar bregusrwydd. Maent yn creu sail ar gyfer penderfyniadau'r heddlu ar y dull mwyaf addas o ymdrin â'r achos gan yr unedau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Timau plismona yn y gymdogaeth yw prif ganolbwynt negeseuon ataliol a thawelu meddwl i'r gymuned. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol, gwefan yr heddlu a sefydliadau cyfryngau lleol i roi diweddariadau rheolaidd. Mae PCSOs a rheolwyr y bît hefyd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gymuned, yn rhannu negeseuon a gwybodaeth trwy gyswllt wyneb yn wyneb. At hyn, defnyddir cyfarfodydd rheolaidd 'yr heddlu a'r gymuned ynghyd' (PACT) i roi gwybodaeth i'r gymuned.

Mae'r heddlu yn defnyddio gwefan a elwir 'Ein bobi' hefyd, sydd yn gyfle i'r cyhoedd godi materion. Ar y safle hwn caiff y cyhoedd wybodaeth am blismona yn y gymdogaeth, a gwybodaeth am waith partneriaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau a phroblemau eraill y maent wedi tynnu sylw atynt.

Mewn ymgais i ganfod lefel yr hyder yn y gwasanaeth mae'n ei gynnig i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol , mae'r heddlu yn gwneud arolwg o nifer o ddioddefwyr ym mhob ardal ddaearyddol. O bryd i'w gilydd, mae hyn wedi tynnu sylw at rai sydd wedi gwneud galwadau ac sydd yn teimlo bod yr heddlu wedi eu methu. Caiff y materion hyn eu datrys yn aml trwy egluro'r gyfraith, grymoedd yr heddlu neu weithdrefnau. Mae hefyd yn canfod achlysuron pan fod dioddefwyr wedi derbyn gwasanaeth gwych. Gall arolygwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon fel cyfle i wobrwyo staff rheng flaen sydd wedi rhagori yn eu dyletswyddau, ac i ddechrau 'gwasanaeth adfer' pan nad yw'r safon wedi ei gyrraedd. Mewn datblygiad diweddar i'r cynllun hwn, caiff myfyrwyr gwirfoddol eu defnyddio i gyfweld dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cynlluniwyd hyn er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o

brofiad y dioddefwr i'r heddlu, ac i gynnig trosolwg i bobl ifanc o sut gall ymddygiad gwrthgymdeithasol effeithio ar fywydau pobl. O ganlyniad i'r arbrawf hwn, mae prif swyddogion wedi creu tair swydd ymchwilio ar y ffôn i ganolbwyntio ar brofiadau dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r fenter 'Get Out' yn annog gweithredu cadarnhaol ar lefel unigol, lefel aelwyd a lefel cymunedol ble bo ymwybyddiaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae staff rheng flaen sydd ar batrôl yn gwneud cyswllt eilaidd gyda dioddefwyr i egluro'r camau maent yn eu cymryd. Os yw'r broblem yn fwy parhaol, mae'r heddlu yn dibynnu ar wirfoddolwyr o fewn rhwydweithiau unigolion allweddol (KINs) i ddiweddaru gwybodaeth i'r gymuned ehangach. Profodd hyn yn arbennig o effeithiol gyda chymunedau mewnfudwyr ble gall anawsterau ieithyddol fod yn broblem.

Mae tactegau eraill yn cynnwys: defnyddio camerâu ar y corff i sicrhau tystiolaeth ymarferol, cynnwys patrolau daearyddol i sicrhau bod yr heddlu yn cael eu hadleoli i ardaloedd o droseddu brig, a'r defnydd o IR3, darn o feddalwedd newydd sydd yn asesu effaith defnyddio patrolau ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae Heddlu De Cymru wedi gweithio yn effeithiol i uno ystod o sefydliadau statudol a darparwyr gwasanaethau eraill mewn ymgais i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r flaenoriaeth i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn benodol yng nghynllun lleihau troseddau'r comisiynydd. Caiff ei atgyfnerthu gan ymrwymiad personol y comisiynydd i Lywodraeth Cymru; mae'n gweithio gyda hwy i ddiwygio gorchymyn mesur tai er mwyn amddiffyn hawliau tenantiaid. Gyrrir gweithgaredd gweithredol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar lefel cymdogaethol. Mae arolygwyr yr heddlu sydd yn gyfrifol am unedau plismona lleol yn chwarae rôl ganolog wrth ysgogi cefnogaeth gan ddarparwyr gwasanaethau eraill.

Oherwydd ymrwymiad Heddlu De Cymru i blismona lleol, gwelir rôl arolygwr cymdogaeth fel swydd uchel ei bri. Mae llawer o unigolion wedi cynnal y swydd hon am nifer o flynyddoedd – mae'r dilyniant maent yn dwyn a'r perthnasau maent wedi eu creu wedi cael effaith gadarnhaol ar ddioddefwyr a phartneriaid.

Mae adnabod dioddefwyr bregus trwy ddefnyddio ACCCC ar y cyswllt cyntaf gyda'r heddlu yn rhoi sicrwydd i bartneriaid bod anghenion dioddefwyr wedi eu hystyried o'r cam cyntaf. Gan ddibynnu ar unrhyw ffactorau risg sydd ynghlwm â'r troseddwr, caiff rheolaeth achos i gefnogi dioddefwyr ac ymdrin â throseddwyr ei yrru ymlaen mewn nifer o fforymau. Gyda throseddwyr ifanc, mae system brysbennu yn gweithredu. Mae'r tîm troseddwyr ifanc a gwasanaethau plant yn gwneud asesiadau cyflym o unigolion ac yn ystyried barn y dioddefwyr. Mewn rhai achosion, dygir i ben y broses o gyfiawnder troseddol i droseddwyr ifanc trwy warediad tu allan i'r llys, dan ymbarél cynigion cymunedol sydd yn cynnwys rhieni a gofalwyr y person ifanc.

Mewn achosion eraill, ystyrir cefnogaeth i'r dioddefwr a rheolaeth y troseddwr trwy gyfarfodydd gyda'r uned gymdogaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal Rhondda Cynon Taf.

## Gwella gwasanaethau i'r cyhoedd

Mae Heddlu De Cymru yn drefnus ac yn strwythuredig yn ei benderfyniad i ymdrin yn llawdrwm ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella ansawdd bywyd pobl. Mae'r heddlu wedi cwblhau cylch o hyfforddiant gorfodol i staff sydd yn ymwneud ag archwilio ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae'r ystod o gefnogaeth arbenigol sydd ar gael i swyddogion cymdogaethol – i gefnogi dioddefwyr ac i daclo troseddwyr fel ei gilydd – yn dda.

Er mwyn cefnogi dioddefwyr byddar, mae nifer o swyddogion a PCSOs wedi hyfforddi yn Iaith Arwyddion Prydain wedi i batrymau ddod i'r amlwg o droseddau yn erbyn pobl fyddar. Mae hyn yn arwydd o'r mesurau eithriadol mae'r heddlu yn fodlon cymryd i adnabod troseddwyr ac amddiffyn eu cymunedau.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth ddyfnach o'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu gyda golwg ar wella darpariaeth gwasanaethau ac ansawdd bywyd y trigolion. Menter yw 'Project 446' i nodi blaenoriaethau ymhlith trigolion mewn cymunedau penodol y gall timau cymdogaethol ganolbwyntio arnynt. Bu ymgynghori helaeth ac ymrwymiad er mwyn adnabod prif bryderon y gymuned. Roedd yn agoriad llygad ac mae wedi dangos cryn bryderon parthed diogelwch personol, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae llai o droseddu. Mae timau o'r heddlu, cynghorau, landlordiaid cymdeithasol a'r sector gwirfoddol wedi datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r problemau. Mae enghreifftiau yn cynnwys codi ysbwriel a gwaredu graffiti er mwyn sicrhau gwelliannau uniongyrchol.

Yn y 12 mis hyd fis March 2014, roedd Heddlu De Cymru wedi cofnodi 42,139 achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn 5 y cant yn llai na'r 12 mis blaenorol.

## Crynodeb

**Neilltuol**

- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth yn Ne Cymru. Cyflenwir gweithgarwch gweithredol gan dimau amlasiantaeth sydd yn adolygu, yn gyson, y ffyrdd gorau i gefnogi dioddefwyr a rheoli ymddygiad tramgwyddus.
- Defnyddir dadansoddiad a chudd-wybodaeth yn effeithiol i atal camdriniaeth fynych ac adnabod y troseddwyr hynny sydd yn peri mwyaf o niwed.
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder o fewn yr heddlu, mewn perthynas ag adnabod dioddefwyr bregus ac yn y ffordd y mae'n tynnu ar gefnogaeth gan sefydliadau allanol i'w hamddiffyn.

- Defnyddia timau plismona cymdogaethol dechnegau datrys problemau er mwyn gwella ansawdd bywyd i bobl De Cymru.

## Beth mae pob penderfyniad yn golygu

Mae HMIC yn defnyddio pedwar categori ar gyfer gwneud penderfyniadau, dau yn gadarnhaol a dau yn negyddol. Y categorïau yw:

- neilltuol;
- da;
- angen gwella; ac
- annigonol.

Gwneir y penderfyniadau o ran y ffordd mae’r heddlu yn cwtogi ar droseddu. Wrth osod y categorïau mae HMIC yn ystyried:

- yw’r ffordd mae’r heddlu yn cwtogi ar droseddu a chwtogi ar droseddau yn dda, neu yn mynd ymhellach na hyn i’r graddau bod modd ei ystyried yn neilltuol;
- yw’r heddlu angen gwella o ran y ffordd mae’n cwtogi ar droseddu, a/neu oes yna rai gwendidau; neu
- yw effeithlonrwydd yr heddlu o ran cwtogi ar droseddu yn annigonol am ei fod gryn dipyn yn is na’r hyn a ddisgwylir.